Grŵp Llandrillo Menai

| Lefel 1 - Mynediad | Lefel 2 - Sylfaen | Lefel 3 - Canolradd | Lefel 4 - Uwch | Lefel 5 - Rhugl |
|---|---|---|---|---|
| **Swyddi dysgu ac addysgu** | | | | |
| **Siarad** | | | | |
| Y gallu i gyfarch dysgwyr a staff gan ddefnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd, e.e. bore da, diolch.<br><br>Y gallu i ynganu enwau lleoedd, pobl a sefydliadau'n gywir.<br><br>Y gallu i siarad amdanoch eich hun ac eraill mewn sefyllfa anffurfiol, e.e.<br><br>diddordebau, teulu, gwaith, gweithgareddau, yr hyn wnaethoch chi ddoe, yr hyn y byddwch chi'n ei wneud.<br><br>Y gallu i drafod pynciau sylfaenol, e.e. y tywydd, amser, prisiau.<br><br>Y gallu i ddefnyddio nifer cyfyngedig o ymadroddion penodol, e.e. i ddechrau a gorffen gwers, i gyflwyno tasgau a phynciau.<br><br>Efallai y bydd yn gyfarwydd â'r termau allweddol sy'n gysylltiedig â maes pwnc. | Y gallu i gynnal sgwrs sylfaenol gyda rhywun ar bwnc bob dydd cyffredin, os bydd y siaradwr arall yn helpu, e.e. drwy siarad yn araf a defnyddio rhai geiriau Saesneg pan fo angen.<br><br>Y gallu i ofyn ac ateb cwestiynau ar bynciau cyfarwydd, e.e. gwaith, diddordebau, hoff bethau, pethau sydd wedi digwydd neu gynlluniau at y dyfodol.<br><br>Y gallu i fynegi barn sylfaenol ar bynciau cyfarwydd fel gwaith, gweithgareddau hamdden a diddordebau.<br><br>Y gallu i gynnal trafodaethau sylfaenol gyda dysgwyr am eu lles, e.e. cynnal tiwtorialau dwyieithog.<br><br>Y gallu i gynnal sgyrsiau anffurfiol sylfaenol gyda dysgwyr am faterion addysgol.<br><br>Efallai y bydd yn gallu ateb rhai cwestiynau syml yn y wers.<br><br>Y gallu i gynnal sgyrsiau bob dydd sylfaenol gyda chydweithwyr. | Y gallu i gynnal sgwrs estynedig gyda siaradwr rhugl ar bwnc cyfarwydd, e.e. eu maes pwnc, eu diddordebau neu'u gwaith.<br><br>Y gallu i gyfrannu i gyfarfodydd gwaith a digwyddiadau'n ddwyieithog, ond gall ddefnyddio rhai geiriau Saesneg wrth sgwrsio.<br><br>Y gallu i fynegi barn a chyfnewid gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau'n gysylltiedig â bywyd bob dydd, e.e. gweithgareddau hamdden, teithio neu bynciau'n ymwneud â gwaith.<br><br>Y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o amserau i drafod pynciau cyfarwydd.<br><br>Y gallu i drafod materion lles yn y ddwy iaith gyda dysgwyr.<br><br>Y gallu i gynnal sgyrsiau estynedig gyda dysgwyr ar faterion addysgol.<br><br>Y gallu i gynnal sgyrsiau estynedig gyda chydweithwyr. | Y gallu i siarad yn hyderus â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n gysylltiedig â bywyd bob dydd.<br><br>Y gallu i fynegi barn a safbwyntiau, cymryd rhan mewn trafodaethau a siarad yn helaeth am bynciau cyffredinol neu gyfarwydd.<br><br>Y gallu i gyfrannu'n ddwyieithog i gyfarfodydd staff/tîm neu mewn sefyllfa un i un.<br><br>Y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o amserau yn eithaf hyderus i drafod pynciau yn rhugl.<br><br>Y gallu i gyflwyno gwersi'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddefnyddio termau technegol yn briodol.<br><br>Y gallu i gynnal tiwtorialau personol yn ddwyieithog. | Y gallu i fynegi eich hun yn llawn ac yn gywir, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth neu anghyfarwydd.<br><br>Y gallu i addasu arddull iaith yn ôl y gynulleidfa, e.e. wrth gyflwyno gwers neu siarad yn anffurfiol gyda chydweithwyr a ffrindiau.<br><br>Y gallu i siarad yn helaeth am bynciau cymhleth, gan fynegi barn a rhannu syniadau.<br><br>Y gallu i gyflwyno gwers yn hyderus yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br><br>Y gallu i gynnal tiwtorialau personol yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br><br>Y gallu i drafod amrywiaeth o bynciau cyfarwydd ac anghyfarwydd.<br><br>Y gallu i ateb cwestiynau gan ddysgwyr yn gywir a, phan fo hynny'n briodol, darparu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y gallu i ynganu'r termau allweddol cyfarwydd sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn gywir. | Y gallu i ynganu a defnyddio rhai termau allweddol sy'n gysylltiedig â'u maes pwnc yn gywir.<br><br>Gall ddefnyddio geiriau Saesneg i sicrhau dealltwriaeth y gynulleidfa ac i fynegi eu hunain yn gywir. | Y gallu i gydweithio ag adrannau eraill i sicrhau cefnogaeth briodol i ddysgwyr.<br><br>Gall ddefnyddio ambell air Saesneg i gyfleu gwybodaeth/trafod pynciau anghyfarwydd.<br><br>Y gallu i annog a chefnogi rhywfaint o drafod dwyieithog yn yr ystafell ddosbarth. | Y gallu i gynnig gwybodaeth ychwanegol i ddysgwyr ac i ateb eu cwestiynau'n gywir.<br><br>Y gallu i gynnig cymorth ac arweiniad i ddysgwyr, e.e. adborth llafar ar waith a gyflwynwyd, atgyfeiriadau am gymorth ychwanegol.<br><br>Y gallu i gyfrannu mewn sefyllfaoedd proffesiynol cyfarwydd, fel cyfarfodydd tîm.<br><br>Y gallu i ddefnyddio patrymau iaith amrywiol ac amserau gwahanol y ferf i gyfleu ystyr mewn sefyllfaoedd cyfarwydd.<br><br>Y gallu i hwyluso a chefnogi trafodaethau ar bynciau cyfarwydd mewn gwersi. | gwybodaeth a chefnogaeth gymhleth iddynt ar faterion sy'n berthnasol i'w maes pwnc.<br><br>Y gallu i hybu a chymryd rhan mewn trafodaeth gyda dysgwyr a chydweithwyr, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br><br>Y gallu i gysylltu â chydweithwyr ac adrannau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Y gallu i gyfrannau i gyfarfodydd tîm a chyfarfodydd un i un yn gywir.<br><br>Y gallu i ddefnyddio patrymau iaith amrywiol ac amserau gwahanol y ferf mewn sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd. |
| **Dealltwriaeth** | | | | |
| Y gallu i ddeall ymadroddion bob dydd a brawddegau sylfaenol iawn os bydd y siaradwr yn siarad yn araf.<br><br>Y gallu i ddeall sgyrsiau am bynciau personol sylfaenol, e.e. ble mae rhywun yn byw, gweithio, yr hyn maen nhw'n hoffi ei wneud, yr hyn wnaethon nhw. | Y gallu i ddeall pan fydd pobl yn siarad am sefyllfaoedd bob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol, gwaith, yr hyn y maent wedi'i wneud neu y byddent yn ei wneud, ar yr amod eu bod yn siarad yn araf.<br><br>Fel arfer yn gallu deall pan fydd pobl yn gofyn i chi neu bobl eraill wneud rhywbeth, a phan fyddan nhw'n | Fel arfer yn gallu deall gwybodaeth a gyflwynir am bynciau cyffredin neu gyfarwydd, neu pan fo materion yn ymwneud â gwaith yn cael eu trafod, e.e. mewn sgyrsiau, neu gyfarfodydd grŵp bach.<br><br>Fel arfer yn gallu deall y brif neges a'r manylion, ar yr amod bod pobl yn siarad yn glir, e.e. pan wneir cyhoeddiadau neu wrth wrando ar fwletinau newyddion. | Fel arfer yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau neu drafodaethau, hyd yn oed ar bynciau nad ydych yn gyfarwydd â nhw.<br><br>Y gallu i ddeall y rhan fwyaf o raglenni teledu neu radio a fwriedir ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, oni bai bod gan y cyflwynydd acen gref ac anghyfarwydd. | Y gallu i ddilyn pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill, ar bob math o bynciau.<br><br>Y gallu i ddeall Cymraeg llafar o bob math, gan gynnwys darlithoedd neu drafodaethau cymhleth ar bynciau cyfarwydd ac anghyfarwydd. |

Grŵp Llandrillo Menai

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fel arfer, yn gwybod pa wybodaeth sy'n bwysig pan fydd rhywun yn rhoi manylion am ddigwyddiadau, fel yr amser a'r lleoliad.<br><br>Y gallu i ddeall ceisiadau sylfaenol a chyffredin.<br><br>Y gallu i ddeall cyfarchion a sgyrsiau syml, rhagweladwy.<br><br>Y gallu i adnabod rhai termau sy'n gysylltiedig â phwnc penodol. | trafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol, e.e. yn gofyn am gyfarfod<br><br>Fel arfer yn gallu deall cwestiynau syml gan ddysgwyr a chydweithwyr, cyn belled â'u bod yn siarad yn araf.<br><br>Y gallu i adnabod rhai termau sy'n gysylltiedig â phwnc penodol.<br><br>Efallai y bydd angen defnyddio rhai geiriau Saesneg i'w helpu i ddeall. | Y gallu i ddeall cwestiynau dysgwyr ac ymateb yn briodol iddynt mewn gwersi a thiwtorialau.<br><br>Y gallu i ddeall y rhan fwyaf o sgyrsiau pob dydd, rhagweladwy gyda staff a dysgwyr.<br><br>Y gallu i ddeall y rhan fwyaf o sgyrsiau bob dydd yn yr ystafell ddosbarth ac ymhlith cydweithwyr.<br><br>Y gallu i adnabod a deall rhai termau sy'n gysylltiedig â phwnc penodol.<br><br>Y gallu i ddilyn mwyafrif y trafodaethau mewn cyfarfodydd tîm.<br><br>Y gallu i ddeall patrymau iaith amrywiol ac amserau gwahanol y ferf.<br><br>Fe all bod gofyn am rai geiriau Saesneg i gynorthwyo unigolyn i ddeall pynciau anghyfarwydd/mwy cymhleth neu ymholiadau. | Y gallu i ddeall trafodaethau proffesiynol a thermau technegol perthnasol.<br><br>Y gallu i ddilyn y pynciau a drafodir mewn cyfarfodydd tîm.<br><br>Y gallu i ddeall cyflwyniadau a thrafodaethau proffesiynol sy'n cynnwys rhywfaint o dermau technegol.<br><br>Y gallu i ddeall cwestiynau a cheisiadau gan ddysgwyr.<br><br>Y gallu i ddeall cwestiynau a cheisiadau gan gydweithwyr a chan adrannau eraill.<br><br>Y gallu i adnabod termau sy'n gysylltiedig â phwnc penodol. | Y gallu i adnabod termau sy'n gysylltiedig â phwnc penodol a thermau technegol. |
| **Llythrennedd** | | | | |
| Y gallu i ddeall ymadroddion byr iawn ac i ddyfalu beth yw ystyr rhai arwyddion.<br><br>Y gallu i ddeall testunau byr lle mae pobl yn cyflwyno | Y gallu i ddeall negeseuon ysgrifenedig am bethau bob dydd, a rhai llythyrau neu negeseuon e-bost syml iawn, e.e. yn gofyn am rywbeth neu'n gofyn am drosglwyddo neges i rywun arall. | Y gallu i ddeall erthyglau byr, syml am bynciau o ddiddordeb bob dydd neu bynciau'n gysylltiedig â gwaith. | Y gallu i ddeall y rhan fwyaf o ohebiaeth, a'r gallu i sganio dogfennau hir i ganfod y manylion.<br><br>Y gallu i ddeall y rhan fwyaf o erthyglau papur newydd ac | Y gallu i ddarllen a deall bron iawn pob testun Cymraeg yn rhwydd, gan gynnwys testunau ac erthyglau'n ymwneud â phwnc penodol, a chan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain neu bobl eraill.<br><br>Fel arfer yn gallu dod o hyd i fanylion, fel yr amser a'r pris, mewn hysbysebion neu arwyddion.<br><br>Y gallu i ysgrifennu ymadroddion neu frawddegau syml amdanoch chi eich hun neu bobl eraill.<br><br>Y gallu i drosglwyddo negeseuon syml neu wneud cais syml, e.e. drwy e-bost.<br><br>Y gallu i ddarllen arwyddion sy'n gyffredin yn y sefydliad.<br><br>Y gallu i ysgrifennu cyfarwyddiadau syml iawn e.e. nodiadau ar sgwrs ffôn neu ar bwnc rhagweladwy.<br><br>Y gallu i roi sylwadau cefnogol ar waith dysgwyr, gan ddefnyddio adnoddau i'w cynorthwyo i wneud hyn o bosibl. | Y gallu i ddeall darnau byr o destun neu lyfrau syml iawn. Gall ddefnyddio adnodd geiriadur i gynorthwyo/cadarnhau dealltwriaeth o rai geiriau.<br><br>Y gallu i ysgrifennu nodyn byr at ffrind neu gydweithiwr, i ofyn am rywbeth, i ddiolch iddynt neu i esbonio rhywbeth yn fyr, e.e. absenoldeb o'r gwaith.<br><br>Y gallu i ysgrifennu testun byr am bwnc cyfarwydd, e.e. profiad personol neu brofiad yn gysylltiedig â gwaith.<br><br>Y gallu i ysgrifennu nodiadau ar gyfer defnydd personol, e.e. yn dilyn cyfarfod. Gall gynnwys rhai geiriau Saesneg neu efallai y bydd angen gwirio ystyr rhai geiriau Cymraeg yn dilyn y digwyddiad.<br><br>Y gallu i roi adborth a sylwadau adeiladol ar waith dysgwyr.<br><br>Y gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg gan ddefnyddio brawddegau gyda phatrymau amrywiol ac amserau berf gwahanol.<br><br>Gall ofyn i gydweithiwr/ffrind brawf ddarllen a/neu ddefnyddio adnodd geiriadur i gyfieithu peth o'r cynnwys. | Y gallu i ddyfalu ystyr geiriau o'r cyd-destun pan fydd y pwnc yn gyfarwydd.<br><br>Y gallu i ddeall erthyglau byr, syml am bynciau o ddiddordeb bob dydd neu bynciau'n gysylltiedig â gwaith neu faes pwnc.<br><br>Y gallu i ddyfalu ystyr geiriau o'r cyd-destun pan fydd y pwnc yn gyfarwydd.<br><br>Y gallu i ddeall y rhan fwyaf o negeseuon e-bost a dogfennau'n gysylltiedig â gwaith.<br><br>Y gallu i ysgrifennu'n gywir negeseuon e-bost anffurfiol a nodiadau at ffrindiau a chydweithwyr ac ar gyfer defnydd personol.<br><br>Y gallu i ysgrifennu llythyr ar y rhan fwyaf o bynciau, i ofyn am bethau, i roi esboniadau, i ddisgrifio profiadau, i wahodd pobl, neu drefnu digwyddiad.<br><br>Y gallu i ysgrifennu'n weddol gywir ar y rhan fwyaf o bynciau cyfarwydd, e.e. pynciau'n gysylltiedig â diddordebau neu waith.<br><br>Y gallu i ddarllen testunau safonol a rhagweladwy, fel llythyrau a negeseuon e-bost. | adroddiadau a fwriedir ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, gyda chymorth geiriadur.<br><br>Y gallu i ddeall nofelau neu destunau eraill, oni bai eu bod wedi'u hysgrifennu mewn arddull ffurfiol neu lafar iawn.<br><br>Y gallu i ysgrifennu erthygl fer, adolygiad neu adroddiad ar amrywiaeth o bynciau cyffredinol, neu bynciau'n gysylltiedig â gwaith, gan ddefnyddio gramadeg gweddol gywir.<br><br>Y gallu i ysgrifennu testunau manwl sydd wedi'u strwythuro'n dda ac sy'n briodol i'r darllenydd.<br><br>Y gallu i ymateb yn gywir i'r rhan fwyaf o ohebiaeth gan gydweithwyr neu gysylltiadau allanol.<br><br>Y gallu i ddarllen testunau estynedig (h.y. llythyrau, adroddiadau, negeseuon e-bost cymhleth).<br><br>Y gallu i ddefnyddio meddalwedd Cymraeg (h.y. gwiriwr sillafu ac ati) i gynhyrchu testunau amrywiol, e.e. llythyrau safonol, negeseuon e-bost a chofnodion cyfarfodydd | gyfeirio'n achlysurol yn unig at eiriadur.<br><br>Y gallu i ddarllen testunau hir, e.e. adroddiadau, erthyglau, i ganfod manylion perthnasol ac i ddeall bron iawn pob math o arddull ysgrifennu, e.e. ffurfiol neu anffurfiol.<br><br>Y gallu i ysgrifennu testunau estynedig, adroddiadau, erthyglau, cofnodion neu fathau eraill o ddarnau ysgrifenedig mewn arddull sy'n briodol i'r darllenydd.<br><br>Y gallu i ysgrifennu Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol yn ôl y gofyn ac i addasu hyn yn ôl y gynulleidfa.<br><br>Y gallu i ysgrifennu testunau manwl sydd wedi'u strwythuro'n dda ac sy'n briodol i'r darllenydd.<br><br>Y gallu i ddefnyddio amrywiaeth o amserau a strwythur gramadegol yn gywir wrth ysgrifennu.<br><br>Y gallu i ysgrifennu'n ramadegol gywir ar amrywiaeth eang o bynciau.<br><br>Y gallu i ddarllen a deall gwaith a gyflwynir gan ddysgwyr drwy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Y gallu i lunio testunau syml, fel amrediad o sylwadau sylfaenol ar waith dysgwr, negeseuon e-bost anffurfiol, ffurflenni safonol<br><br>Gall ofyn i gydweithiwr neu ffrind brawf ddarllen y gwaith.<br><br>Gallai ddefnyddio meddalwedd gwirio sillafu/gramadeg h.y. Cysill i wirio cywirdeb dogfennau ysgrifenedig. | Y gallu i ddarllen testunau safonol sy'n cynnwys termau technegol sy'n berthnasol i faes arbenigedd yr ymarferydd. Y gallu i asesu gwaith y dysgwyr. Y gallu i gywiro gwaith y dysgwyr yn unol â strategaethau llythrennedd y Grŵp. Y gallu i ddefnyddio meddalwedd Cymraeg (h.y. gwiriwr sillafu ac ati) i gynhyrchu testunau amrywiol, e.e.<br><br>• Adnoddau dysgu ac addysgu personol<br>• Adborth ysgrifenedig i ddysgwyr ar eu gwaith ac mewn adroddiadau<br>• Negeseuon e-bost<br>• Llythyrau safonol<br>• Cofnodion dysgwyr, gan gynnwys dogfennau OneFile, EDrac ac ati<br>• Cofnodion cyfarfodydd (os yw'n briodol)<br>• Y gallu i addasu cyfieithiadau'n ôl y galw | gyfrwng y Gymraeg ac i roi adborth a thargedau ysgrifenedig manwl i ddysgwyr ar eu gwaith.<br><br>Y gallu i gwblhau dogfennau cynllunio gwersi/sesiynau a chynlluniau gwaith yn ddwyieithog.<br><br>Y gallu i ddefnyddio meddalwedd Cymraeg (h.y. gwiriwr sillafu ac ati) i gynhyrchu testunau amrywiol. |